



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion

**ADRODDIAD BLYNYDDOL  
2018/19**

Medi 2019



## **Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

# **Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion: Adroddiad Blynyddol 2018/19**

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019)

Mae fersiynau amgen o'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy e-bostio [registered.interme@Justice.gov.uk](mailto:registered.interme@Justice.gov.uk)

# Rhagair gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder Wendy Morton AS

Ers cyflwyno'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion (WIS) yn genedlaethol yn 2008, mae wedi cael effaith eithriadol gadarnhaol ar ein system gyfiawnder troseddol gan helpu i sicrhau mynediad cyfartal at gyfiawnder i rai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas.



Bellach yn ei unfed flwyddyn ar-ddeg, mae'r WIS yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn i bob un o'r 43 ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr. Drwy gydol 2018/19, mae'r gwaith a wneir gan Gyfryngwyr Cofrestredig (RI) wedi helpu dros 6000 o ddiodefwyr a thystion gydag anawsterau cyfathrebu – dros 500 y mis – i gyflwyno eu tystiolaeth orau mewn cyfweiliadau gyda'r heddlu ac yn y llys. Drwy wneud hynny, maen nhw wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i greu amgylchedd mwy hygyrch drwy hwyluso pobl i roi tystiolaeth na fyddai fel arall wedi cael ei gwranddo. Heb Gyfryngwyr Cofrestredig, ni fyddai gan bobl gyda thrafferthion cyfathrebu lais yn y system gyfiawnder troseddol.

Mae'r cynnydd sydyn yn y galw am Gyfryngwyr Cofrestredig ers cyflwyno'r WIS wedi golygu bod angen mwy o gapasiti a newidiadau i gefnogi twf y Cynllun. Drwy'r flwyddyn mae fy swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfryngwyr Cofrestredig ar draws Cymru a Lloegr i ateb yr heriau hyn drwy weithredu cyfres o welliannau, gan gynnwys ymgyrchoedd recriwtio parhaus, rhaglen hyfforddiant newydd i Gyfryngwyr Cofrestredig a mwy o gymorth i gyfryngwyr newydd eu recriwtio. Mae'r newidiadau pwysig hyn yn helpu i sicrhau bod y WIS yn gallu ateb anghenion yr holl ddiodefwyr a thystion sy'n dibynnu arno yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Wrth wynebu'r dyfodol, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyflawni adolygiad o wasanaethau cyfryngwyr ar draws y system gyfiawnder i sefydlu beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Drwy adeiladu ar gynnydd y flwyddyn ddiwethaf, bwriadwn barhau i gryfhau'r WIS drwy wrando ar y cyfryngwyr sy'n gwneud y gwasanaeth hanfodol hwn yn bosib. Drwy'r ymdrechion hyn byddwn yn anelu at greu system gyfiawnder o safon fyd-eang sy'n gweithio i bawb mewn cymdeithas.



**Wendy Morton AS**  
**Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder**

# Cynnwys

Rhagair gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder	2
Geirfa a Byrfoddau	5
Rhagarweiniad: Trosolwg ar Gynllun Cyfryngwr Tystion 2018/19	6
2018/19 yn y Cynllun Cyfryngwr Tystion: Y Flwyddyn mewn Rhifau	8
<b>Rhan Un: Gweinyddu'r Cynllun Cyfryngwr Tystion</b>	
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	9
Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwr	9
Bwrdd Sicrhau Ansawdd	10
Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol	10
Y Tîm Cyfeiriol Cyfryngwr Cofrestredig	11
Amcanion y WIS: Ein Blaenoriaethau	11
<b>Astudiaeth Achos 1:</b>	
Cynorthwyo Plant yn y System Gyfiawnder Troseddol	13
<b>Rhan Dau: Dadansoddi Perfformiad</b>	
Methodoleg	15
Crynodeb	15
Data Perfformiad ar gyfer 2018/19:	
• Cyfanswm y Ceisiadau am Gyfryngwr Cofrestredig	17
• Ceisiadau yn ôl Bregusrwydd Tystion	19
• Ceisiadau yn ôl y Math o Dyst	24
• Ceisiadau yn ôl Defnyddiwr Gwasanaeth	27
• Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth	30
<b>Astudiaeth Achos 2:</b>	
Defnydd Rhyngwladol o Gyfryngwr Cofrestredig	37
<b>Rhan Tri: Datblygiadau yn y Cynllun Cyfryngwr Tystion 2018/19</b>	
Crynodeb	39
Strategaeth ar gyfer Recriwtio Cyfryngwr Cofrestredig	39
Hyfforddiant ar gyfer Cyfryngwr Cofrestredig	40

Fframwaith Cymorth i Gyfryngwyr NQRI	40
Cyfryngwyr Cofrestredig Achrededig	41
Cydlynwyr Rhanbarthol	41
Cynhadledd y WIS 2019	42

### **Astudiaeth Achos 3:**

Barn Cyfryngwr NQRI	43
---------------------	----

### **Rhan Pedwar: Ariannu'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion**

Y Gyllideb Weinyddol	45
Cyfraddau Tâl	45

### **Astudiaeth Achos 4:**

Byddardod yn y System Gyfiawnder Troseddol	46
--	----

### **Rhan Pump: Edrych Ymlaen**

Recriwtio ar Sail Sgiliau	48
Strategaeth y QAB	48
Cymorth i Gyfryngwyr NQRI	48
Adolygiad o Wasanaethau Cyfryngwyr Ar Draws y System Gyfiawnder	49

## Geirfa a Byrfoddau

ABE	Sicrhau'r Dystiolaeth Orau
aRI	Cyfryngwr Cofrestredig Achrededig
CJS	Y System Gyfiawnder Troseddol
CPD	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
Defnyddiwr Gwasanaeth	Y parti sy'n gofyn am wasanaeth Cyfryngwr Cofrestredig
GRH	Gwrandawriad Rheolau Sylfaenol
HMCTS	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
IRB	Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
NCA	Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol
NQRI	Cyfryngwr Cofrestredig Newydd Gymhwysu
QAB	Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd
RfS	Cais am Wasanaeth
RI	Cyfryngwr Cofrestredig
RIRT	Y Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig
SLT	Therapi Iaith a Lleferydd
Gwrandawriad a.28	Gwrandawriad Adran 28 <sup>1</sup>
WIS	Y Cynllun Cyfryngwyr Tystion
WIT	Y Tîm Cyfryngwyr Tystion
YJCEA	Deddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999

<sup>1</sup> O dan adran 28 (a.28) o Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA) gall tystion bregus a thystion wedi eu dychrynu recordio proses eu croesholi ymlaen llaw cyn y treial. Mae Llysoedd y Goron Leeds, Lerpwl a Kingston upon Thames (Llysoedd Mabwysiadu'n Fuan) wedi dechrau gwneud hyn ers Rhagfyr 2013. Ar 3 Mehefin 2019, daeth a.28 i rym ar gyfer dioddefwyr troseddau rhyw a throseddau caethwasiaeth fodern (is-set o dystion wedi eu dychrynu) mewn achosion o flaen y Llysoedd Mabwysiadu'n Fuan; ac ar gyfer tystion bregus yn y chwe chanolfan Llys y Goron Ton Gyntaf (Caer, Yr Wyddgrug, Carlisle, Durham, Sheffield a Bradford).

# Rhagarweiniad: Trosolwg ar Gynllun Cyfryngwyr Tystion 2018/19

## Cefndir

Cafodd y Cynllun Cyfryngwyr Tystion (WIS) ei dreialu gyntaf yng Nghymru a Lloegr yn 2004, i weithredu'r mesur arbennig ar gyfer Cyfryngwyr yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Thystiolaeth Droseddol 1999. Cafodd y WIS ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2008 a sefydlwyd cronfa ddata, *Y Gofrestr Cyfryngwyr Cofrestredig*, sef Cyfryngwyr Cofrestredig (RI) sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (yr MoJ).

Mae RI yn arbenigwr cyfathrebu hunan-gyflogedig sy'n helpu tystion ac achwynwyr gyda thrafferthion cyfathrebu i roi tystiolaeth i'r heddlu ac i'r llys mewn achosion troseddol. Yn aml iawn mae'r cymorth hwn yn gwneud y gwahaniaeth rhwng tyst yn gallu rhoi tystiolaeth neu beidio.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg ar lywodraethu, gweithrediad a pherfformiad y WIS rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

## Trosolwg ar 2018/19

Drwy gydol 2018/19, mae'r MoJ wedi gweithredu cyfres o welliannau i'r WIS gyda ffocws arbennig ar gynyddu capasiti fel bod gan bob dioddefwr a thyst sydd angen Cyfryngwr Cofrestredig arnynt gyfle i dderbyn cymorth amserol.

Mae ceisiadau am RI drwy'r WIS wedi cynyddu o 430% ers 2010. I ateb y galw cynyddol hwn, rydyn ni wedi cwblhau pedwar ymgyrch recriwtio rhanbarthol gan ychwanegu 48 o Gyfryngwyr Cofrestredig newydd at gofrestr y WIS.<sup>2</sup> Gyda'r adnodd ychwanegol hwn, bu'n bosib lleihau'r amser aros cyfartalog am RI i lai na thair wythnos. Drwy gydol y flwyddyn i ddod, bydd yr MoJ yn parhau i gynnal ymgyrchoedd recriwtio rheolaidd gan dargedu'r sgiliau a'r arbenigedd sydd fwyaf eu hangen ar y WIS.

Mae rhaglen hyfforddiant ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig wedi ei datblygu a'i gweithredu gan dîm o Gyfryngwyr Cofrestredig profiadol er mwyn gallu teilwrio'r cynnwys yn llawn i'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer y rôl. I gyd-fynd â hyn, mae'r cymorth a roddir i Gyfryngwyr Cofrestredig Newydd Gymhwysu (NQRI) wedi gwella, gyda mwy o fentora un-i-un a thrwy gyflwyno grwpiau dan arweiniad cyd-gyfryngwyr i gadarnhau'r hyn a ddysgwyd yn yr hyfforddiant. Mae'r MoJ hefyd wedi ail-gyflwyno cynhadledd flynyddol y WIS i roi cyfle gwerthfawr i rwydweithio ac ennill profiad CPD, gan ddod â Chyfryngwyr Cofrestredig o bob cwr o'r wlad at ei gilydd. Cynhaliwyd y gynhadledd eleni ym mis Chwefror gydag adborth da iawn ohoni. I gryfhau'r gwaith o lywodraethu'r WIS a rhoi cyfle i Gyfryngwyr Cofrestredig gymryd rhan mewn gweithgareddau fel recriwtio, hyfforddiant, digwyddiadau CPD, mentora a datblygu polisi, rydyn ni wedi cyflwyno cynllun achredu lle

---

<sup>2</sup> Ystadegau recriwtio'r WIS am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019

gall Cyfryngwyr Cofrestredig sydd â hanes o dderbyn adborth rhagorol ymgeisio am swyddi uwch.

Rydyn ni wedi parhau i gyrchu'n dda at ein nod o sicrhau bod pob cais am RI yn cael ei baru'n llwyddiannus, gan gynyddu'r ganran o geisiadau sy'n cael eu paru o 93% i 96% o'r cyfanswm blynyddol. Mae'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth (fel arfer yr heddlu neu Wasanaeth Eryl y Goron) hefyd wedi parhau i fod yn dda, gyda 99.8% o'r ymateb wedi bod yn 'rhagorol', 'mwy na boddhaol' neu 'boddhaol'.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i gynyddu nifer y Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n weithredol yn y WIS gan dargedu'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i ateb anghenion y bobl fregus sy'n defnyddio'r system gyfiawnder troseddol. Bydd gwella'r trefniadau ar gyfer mentora Cyfryngwyr Cofrestredig yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel, ynghyd â hyfforddi rhai newydd eu recriwtio. Drwy'r amcanion hyn, byddwn yn gweithio i gynnal safonau uchel y WIS ac i ddarparu'r gwasanaeth hollbwysig a roddir gan Gyfryngwyr Cofrestredig.

Ym mis Gorffennaf 2019, dechreuodd yr MoJ ar y gwaith o adolygu gwasanaethau cyfryngwyr ar draws y system gyfiawnder. Bydd yr adolygiad yn casglu tystiolaeth a data er mwyn deall y tirlun presennol o wasanaethau cyfryngwyr yn well, gan geisio adnabod a datrys unrhyw broblemau, heriau a bylchau i helpu i fireinio a gwella gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

## **Astudiaethau Achos**



Mae'r pum astudiaeth achos yn yr adroddiad blynyddol hwn wedi eu cynhyrchu a'u darparu gan Gyfryngwyr Cofrestredig sy'n weithredol yn y WIS. Mae rhai enwau a manylion adnabod wedi cael eu newid i warchod preifatrwydd unigolion.

## **Ffynonellau Data**

Daw'r ffigurau yn yr adroddiad hwn, oni nodir yn glir fel arall, gan Dîm Cyfryngwyr Tystion yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol a Thîm Cyfryngwyr yr MoJ.



# 2018/19 yn y Cynllun Cyfryngwr Tystion: Y Flwyddyn mewn Rhifau



# Rhan Un: Gweinyddu'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Yr MoJ sy'n bennaf gyfrifol am y WIS. Mae hyn yn cynnwys materion strategol a pholisi, ariannu a gweinyddu'r WIS a recriwtio a hyfforddi Cyfryngwyr Cofrestredig newydd.

Yr Uned Polisi Bregusrwydd, sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Teulu a Chyfiawnder Troseddol, sy'n gyfrifol am bolisi'n ymwneud â Chyfryngwyr Cofrestredig.

## Y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr (IRB)

Mae'r IRB yn cyfarfod pob chwarter ac yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r system gyfiawnder troseddol. Mae'n cael ei gadeirio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd fel a ganlyn:

'Mae ffocws y Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr (IRB) ar gyfeiriad strategol, rheoli polisi a gweithrediad y Cynllun Cyfryngwyr Tystion. Mae'n gorff llywodraethu sy'n dod â nifer o randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r system gyfiawnder troseddol at ei gilydd ac yn gyfrifol am benderfynu polisiau'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion. Mae ei aelodau'n gyfrifol am gynrychioli eu sefydliadau ar y Bwrdd ac am gynrychioli'r Bwrdd yn eu sefydliadau i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl sydd yn y system gyfiawnder troseddol'.

Ar hyn o bryd mae gan yr IRB 15 o aelodau gweithredol:

Y BWRDD COFRESTRU CYFRYNGWYR	
Aelod	Corff y mae'n ei gynrychioli
Laura Beaumont/Abigail Plenty	Cadeirydd / Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Bregusrwydd, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Fiona Beazer	Gwasanaeth Tystion Cyngor Ar Bopeth
Annika Asp	Gwasanaeth Erllyn y Goron
Adrienne Finney	Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon
Veronica Holland	Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon
Rachael Bower	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
Sidonie Kingsmill	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
Janet Arkinstall	Cymdeithas y Gyfraith
Samantha Dine	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Philip Campbell	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Frank Glen	Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol / Heddlu
Karen Bryan	Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd
Jennifer Beaumont	Y Tim Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig
Adam Yates	Heddlu Staffordshire Police
ACC Emma Barnett	Heddlu Staffordshire Police

## Y Bwrdd Sicrhau Ansawdd (QAB)

Y QAB yw'r corff sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd, rheoleiddio a monitro safonau proffesiynol Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n gweithio yn y WIS. Ei nod yw sicrhau bod gwasanaeth cyfryngu proffesiynol, o safon uchel yn cael ei ddarparu i ddiodefwr a thystion sydd ag anghenion cyfathrebu.

Mae'r QAB yn cwrdd pob chwarter gan ddod ag unigolion gyda phrofiad proffesiynol ym maes rheoleiddio a sicrhau ansawdd at ei gilydd. Mae'n atebol i'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr (IRB).

Rôl y QAB yw:

- Cytuno ar safonau ar gyfer, ac arwain ar, reoli ansawdd y broses recriwtio, hyfforddi, achredu a CPD ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig
- Cynnal a chadw'r Gofrestr o Gyfryngwyr Cofrestredig a sicrhau ei bod yn addas i'r pwrpas
- Sicrhau bod Cyfryngwyr Cofrestredig yn ymddwyn yn unol â'r Cod Ymarfer a'r Cod Moeseg
- Sicrhau bod cwynion yn erbyn Cyfryngwyr Cofrestredig yn cael eu hymchwilio'n llawn yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Gwyno'r IRB
- Monitro a chynorthwyo i ddatblygu pob agwedd ar rôl broffesiynol y Cyfryngwr Cofrestredig

Ar hyn o bryd mae gan y QAB 13 o aelodau:

Y BWRDD SICRHAU ANSAWDD	
Aelod	Rôl / Yn cynrychioli
Karen Bryan	Cadeirydd / Aelod annibynnol
Annika Asp	Gwasanaeth Erlyn y Goron
Samantha Dine	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Philip Campbell	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
David Liddle	Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol
Rachel Surkitt	Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol
Claire Moser	Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT)
Nicola Furlong	Heddlu Staffordshire
Stella Charman	Aelod annibynnol
Brian Daly	Aelod annibynnol
Alison Peasgood	Aelod annibynnol
Lizzie Peers	Aelod annibynnol
John Postlethwaite	Aelod annibynnol

## Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA)

Mae Tîm Cyfryngwyr Tystion (WIT) yr NCA wedi darparu'r agweddau darparu gweithredol ar y WIS ers 2013, ar ôl darparu'r ochr yma o'r gwasanaeth mewn partneriaeth â'r MoJ ers

2009. Y brif elfen weithredol yw'r Gwasanaeth Paru, sy'n paru neu'n cyfateb Cyfryngwyr Cofrestredig i anghenion y tystion ar gais y defnyddiwr gwasanaeth.

Y WIT sy'n gyfrifol am baru ceisiadau am gyfryngwyr gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn Y Goron (CPS) yn defnyddio cofrestr ganolog o Gyfryngwyr Cofrestredig cymwysedig. Mae'r NCA yn casglu data fel nifer y ceisiadau ym mhob ardal a'r rheswm neu resymau am y cais (fel math o anabledd ac oed y tyst). Y data hwn yw'r brif ffordd o fesur unrhyw newidiadau a thueddiadau newydd yn y galw am Gyfryngwyr Cofrestredig. Mae'r WIT hefyd yn rhoi cymorth i blismyn ac erlynwyr ar ddefnyddio Cyfryngwyr Cofrestredig ynghyd â chynghor ar strategaethau ar gyfer cyfweld tystion bregus. Mae wedi'i arwain gan y Cynghorydd Tystion Bregus Cenedlaethol sy'n gweithio'n aml ar ymchwiliadau i droseddau mawr i gynorthwyo gyda chreu strategaethau cyfweld a rheoli tystion mewn achosion sy'n cynnwys tystion arbennig o fregus.

## Y Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig (RIRT)

Yn ogystal â'r cyrff llywodraethu a enwir uchod, mae'r Tîm Cyfeiriol Cyfryngwyr Cofrestredig (RIRT) yn cynnwys Cyfryngwyr Cofrestredig o grwpiau rhanbarthol annibynnol a sefydlwyd gan y gymuned RI.

Mae'r RIRT yn grŵp ymgynghori rhanddeiliaid sy'n cynrychioli Cyfryngwyr Cofrestredig gyda'r MoJ yn y gwaith o ddatblygu, rheoli a llywodraethu'r WIS. Nod y grŵp yw cynrychioli buddiannau Cyfryngwyr Cofrestredig gyda'r MoJ ac mae aelod enwebedig o'r RIRT yn mynychu cyfarfodydd yr IRB.

Ar hyn o bryd mae yna 10 o gynrychiolwyr RIRT sy'n cynrychioli'r 10 grŵp rhanbarthol. Cynrychiolir aelodau o bob grŵp rhanbarthol yng nghyfarfodydd yr RIRT.

## Amcanion y WIS: Ein Blaenoriaethau

Drwy gydol 2018/19, mae rheolaeth yr MoJ o'r WIS wedi'i dywys gan dair blaenoriaeth graidd:

- Cynyddu capasiti
- Gweithio mewn partneriaeth â Chyfryngwyr Cofrestredig i wella'r ochr lywodraethu
- Bod yn fwy tryloyw ac agored

### Cynyddu Capasiti

Rydyn ni wedi bod yn gweithio drwy'r flwyddyn i gynyddu capasiti'r WIS fel bod pob tyst a dioddefwr bregus sydd angen Cyfryngwr Cofrestredig arnynt yn gallu derbyn y gwasanaeth mewn ffordd amserol.

### Gweithio mewn Partneriaeth â Chyfryngwyr Cofrestredig i Wella'r Ochr Lywodraethu

Ers cyflwyno'r cynllun achredu, yn raddol rydyn ni wedi bod yn adeiladu rhwydwaith o Gyfryngwyr Cofrestredig achrededig (aRI) i weithio gyda'r MoJ ar wella'r WIS. Ym mis Chwefror, fe wnaethom gyflwyno'r Cydlynedd Rhanbarthol cyntaf i fod y pwynt cyswllt

cyntaf i gyfryngwyr yn yr ardal honno. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwn yn y flwyddyn i ddod drwy recriwtio tri o Gydlynwyr Rhanbarthol eraill a sicrhau bod gan y Cyfryngwyr Cofrestredig achrededig gyfle i ddefnyddio eu hystod amrywiol o sgiliau a phrofiad er mantais i'r WIS yn gyffredinol.

## **Bod yn fwy Tryloyw ac Agored**

Rydyn yn ymroddedig i fod yn dryloyw ac i hyrwyddo llywodraethu'r WIS mewn ffordd atebol a chynhwysol. Fel rhan o'r ymdrechion hyn rydyn ni'n gweithio i gyfathrebu'n well â Chyfryngwyr Cofrestredig drwy eu diweddarau pob chwarter ar ddatblygiadau'r WIS a'u cynnwys yn fwy mewn penderfyniadau. Rydyn ni'n cyhoeddi adroddiad blynyddol cyntaf WIS ynghyd â Strategaeth y QAB er mwyn rhoi mwy o fynediad at wybodaeth am weithrediad y WIS.

# Astudiaeth Achos 1: Cynorthwyo Plant yn y System Gyfiawnder Troseddol

Jan Jones

## BYWGRAFFIAD

Cymhwysodd Jan fel Cyfryngwr Cofrestredig yn 2003.

Mae ei meysydd arbenigol yn ymwneud fel arfer â datblygu plant 17 oed ac iau sydd ag amrediad o agweddau bregusrwydd fel anhwylderau ar y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, epilepsi ac anhwylder gorfodaeth obsesiynol.

Mae Bartek ac Abram yn frodyr, ac yn saith ac wyth oed. Maen nhw'n siarad Portiwgaleg a Saesneg. Ym mis Tachwedd 2018 fe wnaethant ddatgelu bod dyn ifanc a oedd yn ffrind i'w mam wedi cyflawni troseddau rhywiol yn eu herbryn mewn ystafell yn eu gardd. Cafodd cyfweiliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau (ABE) ei recordio gan yr heddlu heb RI. Gofynnwyd am gymorth RI ym mis Rhagfyr ar gyfer croesholi wedi'i recordio ymlaen llaw (gwrandawriad a28) ddiwedd Ionawr. Fi oedd yr RI y cysylltwyd â mi i helpu.

Gyda phlismon yr achos yn bresennol, mi wnes i asesu iaith, sgiliau cyfathrebu a chyflwr emosiynol y ddau fachgen ac yna gwyllo recordiadau o'u cyfweiliadau gyda'r heddlu. Roedden nhw'n blant oedd yn datblygu'n normal a phriodol am eu hoed yn yr ysgol. Ysgrifennais un adroddiad ar gyfer y treial oherwydd byddai llawer o'r argymhellion yr un fath o gofio pa mor agos yr oeddent mewn oed, ond gan ddisgrifio canfyddiadau fy asesiad o bob bachgen ar wahân.

Gallai'r ddau fachgen siarad am bethau a ddigwyddodd yn y gorffennol ac ateb cwestiynau syml. Gallent ateb cwestiynau'n dechrau gyda *pwyl, beth, ble, a wnaeth ac a oedd*. Roedden nhw'n cael mwy o drafferth gyda chwestiynau'n dechrau gyda *pryd* neu *faint* fel 'pryd ddigwyddodd hynny' neu 'faint mor hir yn ôl' neu 'faint mor aml'. Er enghraifft, pan ofynnwyd i un bachgen pryd y digwyddodd rhywbeth, atebodd '*pan oeddwn i'n bedair oed neu rywbeth*'. Hefyd, dywedodd nad oedd '*yn amseru pethau*' pan ofynnwyd iddo ba mor hir y cymrodd rywbeth, gan ateb '*ddim yn aml*' pan ofynnwyd iddo pa mor aml y digwyddodd rhywbeth.

Bartek oedd y bachgen hŷn ond roedd yn cael mwy o drafferth aros yn llonydd ac nid oedd ei sgiliau gwrandawrodd cystal. Roedd ganddo acen Bortiwgaleg (iaith y cartref) ac yn cymysgu ei synau llafar wrth siarad weithiau fel nad oedd bob amser yn hawdd ei ddeall. Nid oedd Abram yn barod i ddweud fy mod yn anghywir nac ychwaith na wyddai'r ateb i gwestiwn neu sylw. Gydag ychydig o ysgogi, dechreuodd ddeall y gallai.

Ar ddiwrnod fy asesiad ohonynt, defnyddiais raddfa emosiwn. Dewisodd y ddau fachgen roi 3 am faint yr oedden nhw'n poeni am fynd i'r llys (1 = ddim yn poeni a 10 = poeni'n ofnadwy). Ar ddiwrnod y croesholi, dewisodd y ddau 6 o ran faint yr oedden nhw'n poeni.

Wrth i'r treial agosáu, aeth y bechgyn i'r llys am eu hymweliad cyn-treial gyda gwirfoddolwr o'r Gwasanaeth Tystion a fi fel yr RI gyda nhw. Edrychodd y ddau o gwmpas ystafell y llys

i weld ble y byddai'r barnwr a'r bargyfreithwyr yn eistedd. Aethant i'r ystafell cyswllt byw gan ymarfer siarad dros y cyswllt byw i ystafell y llys. Cyn y Gwrandawriad a28, gwylodd y ddau eu cyfweliad ABE i'w hatgoffa am yr atebion a roesant i'r plismon pan gawsant eu cyfweld.

Trefnwyd Gwrandawriad Rheolau Sylfaenol (GRH) ar gyfer dydd Llun yr wythnos y byddai'r ddau groesholiad wedi'u recordio ymlaen llaw'n digwydd. Roedd y GRH yn drylwyr gan gymryd y rhan fwyaf o un diwrnod. Cymerwyd gofal i sicrhau y byddai'r dechnoleg yn gweithio fel y gellid gweld a chlywed y ddau dyst a'r RI yn iawn. Trafodwyd gweithdrefn y gwrandawriadau a'r iaith a fyddai'n cael ei defnyddio. Cafodd yr argymhellion yn fy adroddiad eu trafod a'u cytuno.

Anfonodd cwnsler yr amddiffyniad y cwestiynau y byddai'n eu gofyn ataf, ac anfonais nhw'n ôl gan awgrymu diwygiadau. Roedd y diwygiadau'n seiliedig ar fy asesiadau ac ar gydnabod y canllawiau yn yr 20 Egwylldor ar gyfer Holi sy'n rhan o'r hyfforddiant *Adfocatiaeth a Phobl Fregus* sy'n cael ei ddarparu gan Goleg Adfocatiaeth y Llysoedd Barn. Un nod clir i mi fel RI oedd sicrhau nad oeddwn yn newid y ddadl yr oedd cwnsler yr amddiffyniad eisiau ei rhoi i'r tyst, ond gan gynorthwyo'r tyst i ddeall a chyfranogi.

Y bore canlynol cyn y gwrandawriad cyntaf, mi fues i a chwnsler yr amddiffyniad drwy'r cwestiynau diwygiedig a'u trafod y tu allan i ystafell y llys. Nes ymlaen cafwyd trafodaeth bellach wedi'i harwain gan y barnwr llywyddol. Roedd yr addasiadau i'r cwestiynau'n cynnwys symleiddio cwestiynau cymhleth mewn dwy ran, tynnu allan geiriau fel '*wyt ti'n cofio*' ar ôl cwestiwn, newid cwestiynau tag ac awgrymu geirfa symlach fel '*wyt ti'n hoffi*' yn lle '*ydy'n well gen ti*'.

Yn ystod y croesholiad roedd y ddau fachgen yn deall y cwestiynau a chyfranogi. Gofynnodd Abram am doriad a rhoddais wybod i'r barnwr gan awgrymu y gallai fod yn doriad byr 'sefyll i fyny a throi rownd' o ddau i dri munud, a chytunodd y barnwr i hyn. Dywedodd Bartek nad oedd wedi clywed cwestiwn ar un pwynt.

Roedd y tystion ifanc a bregus yn ymddangos i fod yn dal i brosesu ac ystyried ateb i gwestiwn blaenorol, yn enwedig wrth ateb cwestiynau'r amddiffyniad. Nid oeddent yn gallu prosesu'r cwestiwn dilynol, gan ddweud wrthyf felly nad oeddent nhw wedi clywed neu ddeall y cwestiwn. Cafodd y mater ei ddatrys yn ddioed drwy ofyn i'r cwnsler ailadrodd yr hyn a ddywedodd ac aeth y croesholi yn ei flaen yn rhwydd. Mae hyn yn dangos yn glir bod addasiadau bach gyda chymorth RI yn gallu cael effaith sylweddol ar ansawdd y dystiolaeth ac ar rwyddineb proses y treial.

Cynhaliwyd y treial ddau fis yn ddiweddarach pan gafodd y recordiadau o gyfweliad ymchwiliadol a chroesholiad y ddau frawd eu chwarae i'r llys. Rhoddodd eu mam a'u chwiorydd dystiolaeth yn y treial hefyd.

Mae Cyfryngwyr Cofrestredig yn ddiuedd ac yn bresennol ar ran y llys yn hytrach na'r erlyniad neu'r amddiffyniad. Ni wn i beth oedd canlyniad y treial, sy'n beth cyffredin. Fel Cyfryngwyr Cofrestredig rydyn ni'n hwyluso cyfathrebu a gellir dadlau ein bod hefyd yn creu proses holi fwy llyfn gyda llai o ailadrodd trawma.

Gall dweud ffarwel wrth achos yn syth ar ôl i'r tyst roi dystiolaeth, a'r achos yn dal i fynd yn ei flaen, fod yn un o'r agweddau mwyaf anesmwyth ar rôl y Cyfryngwr Cofrestredig.

# Rhan Dau: Dadansoddi Perfformiad

## Methodoleg

Mae'r NCA yn casglu data ar geisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig. Mae'r data hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr ar wasanaethau'r WIS drwy gydol 2018/19 a dyma'r brif ffynhonnell ddata ar gyfer y bennod ar ddadansoddi perfformiad.

Mae'r data'n cynnwys:

- Cyfanswm nifer y ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig
- Ceisiadau yn ôl bregusrwydd tystion
- Ceisiadau yn ôl y math o dyst
- Ceisiadau yn ôl defnyddiwr gwasanaeth (yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn Y Goron)
- Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn 2018/19

Crynoir y data am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Mae hyn yn cynnwys newidiadau yn nifer y ceisiadau ac yn nosbarthiad y ceisiadau ar draws gwahanol fathau o dystion, bregusrwydd, a defnyddwyr gwasanaeth, a faint o geisiadau a gafodd eu paru'n llwyddiannus, heb eu paru a cheisiadau a ganslwyd (cyfraddau paru llwyddiannus).<sup>3</sup> Mae'r rhan yma hefyd yn trafod adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, ar sail pedwar maen prawf asesu, o dros 2500 achosion yn ymwneud â dioddefwyr a thystion yr erlyniad lle derbyniwyd adborth.

Er mwyn edrych ar dueddiadau ehangach yn y WIS a gosod meincnodau i ddehongli data 2018/19 yn eu herbyn, bydd y rhan yma'n cyfeirio at ddata'r Gwasanaeth Paru o 2017/18 (rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018). Defnyddiwyd data o'r un cyfnodau yn 2013/14 a 2010/11 hefyd lle'r oedd yn briodol, i roi cyd-destun hirdymor drwy gymariaethau 5 ac 8 mlynedd.

## Crynodeb

Yn 2018/19, mae cyfradd y ceisiadau a barwyd yn llwyddiannus wedi cynyddu ar draws pob categori data. Gwnaed cyfanswm o 6276 o geisiadau yn 2018/19 gyda 96.2% (6040) wedi cael eu paru'n llwyddiannus. Mae hyn yn gynydd o 3.3% yng nghyfradd y ceisiadau a barwyd ers 2017/18 ac yn dangos bod mwy o Gyfryngwyr Cofrestredig ar gael ers dechrau cynnal yr ymgyrchoedd recriwtio rhanbarthol parhaus yn Rhagfyr 2017.

Ar y cyfan, mae nifer y ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig i lawr o 6.4% ers 2017/18, o 6705 i 6276 yn 2018/19 – 429 yn llai o geisiadau dros y 12 mis hwn. Er nad oes lleihad wedi bod ym mhob categori bregusrwydd, dengys ffigyra 5 fod cyfanswm y ceisiadau ar gyfer tystion ag anabledau dysgu i lawr o 8.9% (294 yn llai o geisiadau ers 2017/18) a nifer y ceisiadau ar gyfer plant fel tystion i lawr o 8.3% (382 yn llai o geisiadau). Mae

<sup>3</sup> Mae cais am RI yn cael ei ganslo pan fydd diffynnydd yn pledio'n euog yn gynnar, neu pan fydd cwyn gan y dioddefwr yn cael ei dynnu'n ôl, er enghraifft.



ceisiadau ar gyfer tystion ag anableddau corfforol a salwch meddwl wedi cynyddu, i fyny 15.6% (67 yn fwy o geisiadau nag yn 2017/18) ar gyfer y naill, a 14.7% (147 yn fwy o geisiadau nag yn 2017/18) ar gyfer y llall (ffigyrau 5 isod). Fel y gwelwn yn ffigyrau 21 a 22 isod, mae ceisiadau gan y ddau ddefnyddiwr gwasanaeth mwyaf (yr heddlu a'r CPS) wedi lleihau, gyda 11.4% yn llai o geisiadau gan y CPS a 5.2% yn llai gan yr heddlu. Mae ceisiadau gan gyfreithwyr a'r llysoedd wedi eu heithrio o'r dadansoddiad hwn oherwydd y ffigurau isel ar eu cyfer.

Mae nifer o resymau posib am y lleihad cyffredinol yn nifer y ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig (ers 2017/18) ac nid yw'r data wedi taflu goleuni ar unrhyw reswm penodol. Yr amheuaeth oedd bod yna argraff ymhlith defnyddwyr gwasanaeth bod Cyfryngwyr Cofrestredig yn brin a bod yn rhaid aros yn hir am eu gwasanaeth. Penderfynodd yr MoJ, HMCTS a'r NPCC weithredu ar y cyd i ddatrys y camargraff hwn a dengys data nes ymlaen ar gyfer Ebrill – Gorffennaf 2019 gynnydd yn nifer y ceisiadau fesul mis.<sup>4</sup>

Drwy gydol 2018/19 roedd yr adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth bron i gyd yn dda gyda 99.8% o'r ymateb wedi bod yn 'rhagorol', 'mwy na boddhaol' neu 'boddhaol'.

---


<sup>4</sup> Mae data gan Wasanaeth Paru'r NCA am y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2019 yn awgrymu bod nifer y ceisiadau am RI bob mis ar gyfartaledd wedi codi i 561. Mae hyn 35 yn fwy o geisiadau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2018 (526 o geisiadau'r mis) a 20 yn fwy o geisiadau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2017 (541 o geisiadau'r mis).

# Data Perfformiad ar gyfer 2018/19

## Cyfanswm y Ceisiadau am Gyfryngwyr Cofrestredig

Yn 2018/19 gwnaed cyfanswm o 6276 o geisiadau am RI drwy'r WIS, 523 y mis ar gyfartaledd.

Mae'r ffigurau hyn ar gyfer 2018/19 yn gynydd o 189.9% (4111 yn fwy o geisiadau) ers 2013/14 pan wnaed 2165 o geisiadau. Maen nhw hefyd yn dangos cynnydd o 430% (5092 yn fwy o geisiadau) ers 2010/11 pan wnaed 1184 o geisiadau. Dengys Ffigwr 1 y newid yng nghyfanswm y ceisiadau ers dechrau'r ddegawd.



Ffigwr 1


## Newid yn Gyffredinol: Cyfraddau Paru Llwyddiannus

O'r 6276 o geisiadau yn 2018/19, cafodd 96.2% (6040) eu paru'n llwyddiannus, gyda 2.1% (133) heb eu paru a 1.6% (103) wedi eu canslo.<sup>5</sup>


Mae hyn yn gynydd o 3.3% yn y gyfradd paru llwyddiannus ers 2017/18 (93.1% o geisiadau wedi eu paru) ac yn gynydd o 1.5% ers 2013/14 (94.8% wedi eu paru).<sup>6</sup>

<sup>5</sup> Ffigwr 2. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

<sup>6</sup> Ffigwr 3. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013–2019



Ffigwr 2



Ffigwr 3


## Ceisiadau yn ôl Bregusrwydd Tystion

Mae pedwar categori bregusrwydd y mae ceisiadau am RI yn disgyn iddynt<sup>7</sup>:

- Plentyn
- Salwch Meddwl
- Anabledd Dysgu
- Anabledd Corfforol

### Dadansoddiad o'r Ceisiadau

O'r holl geisiadau am RI yn 2018/19, roedd 47.4% ar gyfer plant sy'n golygu mai dyma'r categori bregusrwydd mwyaf. Y categori ail fwyaf oedd ceisiadau ar gyfer anabledd dysgu ar 34%, yna salwch meddwl ar 13% ac anableddau corfforol ar 5.6%.



Ffigwr 4

### Newid Ar Draws yr Holl Geisiadau


Ers 2017/18, mae ceisiadau ar gyfer tystion ag anabledd corfforol i fyny o 15.6% (67 yn fwy o geisiadau) a cheisiadau ar gyfer tystion â salwch meddwl i fyny o 14.7% (147 yn fwy o geisiadau). Mae ceisiadau ar gyfer tystion ag anabledd dysgu i lawr o 8.9% (294 yn llai o geisiadau) a cheisiadau ar gyfer plant i lawr o 8.3% (382 yn llai o geisiadau).<sup>8</sup>

<sup>7</sup> Oherwydd y gallai fod gan dyst fwy nag un ffactor sy'n eu gwneud yn fregus, mae ffigurau'r data hwn yn fwy na ffigurau cyfanswm y ceisiadau a roddir uchod.

<sup>8</sup> Ffigurau 4 a 5. *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 - 2018*

NEWID AR DRAWS YR HOLL GEISIADAU (BREGUSRWYDD)			
Bregusrwydd	2017/18	2018/19	Newid ers 2017/18 (%)
Plentyn	4580	4198	-8.3
Salwch Meddwl	1001	1148	+14.7
Anabledd Dysgu	3304	3010	-8.9
Anabledd Corfforol	430	497	+15.6

Ffigur 5



Ffigur 6


## Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Mae'r gyfradd paru llwyddiannus ar gyfer pob math o fregusrwydd wedi cynyddu ers 2017/18. Mae'r ceisiadau a barwyd ar gyfer plant i fyny o 3.5%, salwch meddwl o 4.9%, anabledd dysgu o 2.7% ac anabledd corfforol o 2%.<sup>9</sup>

NEWID MEWN CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (MATH O FREGUSRWYDD)			
Bregusrwydd	(%) A BARWYD YN 2017/18	(%) A BARWYD YN 2018/19	Newid ers 2017/18 (%)
Plentyn	93.1	96.4	+3.5
Salwch Meddwl	89.9	94.3	+4.9
Anabledd Dysgu	94.3	96.8	+2.7
Anabledd Corfforol	94.9	96.8	+2

Ffigur 7

<sup>9</sup> Ffigurau 7 ac 8, Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19




Ffigwr 8

Ceisiadau am RI i helpu tystion gyda salwch meddwl oedd y rhai mwyaf tebygol o beidio â chael eu paru (3.6% heb eu paru), yna tystion ag anabledd corfforol (2% heb eu paru), plant (1.9% heb eu paru) a thystion ag anabledd dysgu (1.4% heb eu paru).<sup>10</sup>

**PLANT**

**CEISIADAU A BARWYD +3.5%**

O'r 4198 o geisiadau ar gyfer plant, cafodd 96.4% (4047) eu paru'n llwyddiannus yn 2018/19, gyda 1.9% (80) heb eu paru a 1.7% (71) wedi eu canslo.<sup>11</sup>



Ffigwr 9

Mae hyn yn gynydd o 3.5% yng nghanran y paru llwyddiannus ers 2017/18 (i fyny o 93.1%) ac yn gynydd o 0.6% (i fyny o 95.8%) ers 2013/14.<sup>12</sup>


<sup>10</sup> Ffigyrau 9-12, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19*

<sup>11</sup> Ffigwr 9, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19*

<sup>12</sup> Ffigwr 8, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19*

**SALWCH MEDDWL****CEISIADAU A BARWYD +4.9%**


O'r 1148 o geisiadau ar gyfer tystion gyda salwch meddwl, cafodd 94.3% (1082) eu paru'n llwyddiannus yn 2018/19, gyda 3.6% (41) heb eu paru a 2.2% (25) wedi eu canslo.<sup>13</sup>

**Ffigwr 10**

Mae hyn yn gynydd o 4.9% yng nghanran y paru llwyddiannus ers 2017/18 (89.9% o geisiadau salwch meddwl wedi eu paru) ac yn gynydd o 5.8% (i fyny o 89.1%) ers 2013/14.<sup>14</sup>

**ANABLEDD DYSGU****CEISIADAU A BARWYD +2.7%**

O'r 3010 o geisiadau ar gyfer tystion ag anabledd dysgu, cafodd 96.8% (2914) eu paru'n llwyddiannus yn 2018/19, gyda 1.8% (55) heb eu paru a 1.4% (41) wedi eu canslo.<sup>15</sup>

**Ffigwr 11**

Mae hyn yn gynydd o 2.7% yng nghanran y paru llwyddiannus ers 2017/18 (94.3% o geisiadau anabledd dysgu wedi eu paru) ac yn gynydd o 1.7% ers 2013/14 (95.2% o geisiadau dioddefwyr wedi eu paru).<sup>16</sup>

<sup>13</sup> Ffigwr 10, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19*


<sup>14</sup> Ffigwr 8, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013 – 2019*

<sup>15</sup> Ffigwr 11, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19*

<sup>16</sup> Ffigwr 8, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013 - 2019*

**ANABLEDD CORFFOROL****CEISIADAU A BARWYD +2%**

O'r 497 o geisiadau ar gyfer anabledd corfforol, cafodd 96.8% (481) eu paru'n llwyddiannus, gyda 2% (10) heb eu paru a 1.2% (6) wedi eu canslo.<sup>17</sup>



**Ffigwr 12**

Mae hyn yn gynydd o 2% yng nghanran y paru llwyddiannus ers 2017/18 (94.9% o geisiadau anabledd corfforol wedi eu paru) ac yn gynydd o 2.3% ers 2013/14 (94.6% o geisiadau dioddefwyr wedi eu paru).<sup>18</sup>

<sup>17</sup> Ffigwr 12, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19*

<sup>18</sup> Ffigwr 8, *Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013 – 2019*




## Ceisiadau yn ôl y Math o Dyst

Mae'r NCA yn rhannu data ar geisiadau i'r Gwasanaeth Paru'n ddau fath o dyst<sup>19</sup>:

- Dioddefwyr
- Tystion yr Erlyniad

### Dadansoddiad o'r Ceisiadau

O'r holl geisiadau am RI yn 2018/19, roedd 91% (5704) yn disgyn i'r categori 'Dioddefwyr'. Roedd y 9% arall (572) yn disgyn i'r categori 'Tystion yr Erlyniad'.<sup>20</sup>



Ffigwr 13

### Newid Ar Draws yr Holl Geisiadau

Ers 2017/18 mae nifer y ceisiadau ar gyfer dioddefwyr i lawr o 6.9% (428 yn llai o geisiadau), a nifer y ceisiadau ar gyfer tystion yr erlyniad fwy neu lai wedi aros yr un fath.<sup>21</sup>


NEWID AR DRAWS YR HOLL GEISIADAU (MATH O DYST)			
Bregusrwydd	2017/18	2018/19	Newid (%)
Dioddefwyr	6132	5704	-6.9
Tystion yr Erlyniad	573	572	-0.17

Ffigwr 14

<sup>19</sup> Data'n deillio o ffurflenni Cais am Wasanaeth (RfS) y CPS. Nid yw ffurflenni RfS bob amser efallai'n gwahaniaethu rhwng 'dioddefwyr' a 'tystion yr erlyniad'. Yn nhermau cyfreithiol, mae dioddefwr yn ymddangos yn y llys fel tyst.

<sup>20</sup> Ffigwr 13: Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

<sup>21</sup> Ffigyrau 14 a 15, Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2019




Ffigwr 15

## Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Ers 2017/18 mae'r gyfradd paru llwyddiannus am y ddau fath o dyst wedi cynyddu. Mae ceisiadau a barwyd ar gyfer tystion yr erlyniad i fyny o 6.9%, a dioddefwyr o 3%.<sup>22</sup>

NEWID MEWN CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (MATH O DYST)			
Math o Dyst	2017/18 (%)	2018/19 (%)	Newid mewn Ceisiadau a Barwyd (%)
Tystion yr Erlyniad	90	96.1	+6.9
Dioddefwyr	93.4	96.2	+3

Ffigwr 16




Ffigwr 17

<sup>22</sup> Ffigyrau 16 a 17, Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013 - 2019

**DIODDEFWYR****CEISIADAU A BARWYD +3%**


O'r 5705 o geisiadau ar gyfer dioddefwyr yn 2018/19, cafodd 96.2% (5491) eu paru'n llwyddiannus, roedd 2.1% (123) heb eu paru a 1.6% (91) wedi eu canslo.<sup>23</sup>

**Ffigwr 18**

Mae hyn yn gynydd o 3% yng nghanran y paru llwyddiannus ers 2017/18 (93.4% o geisiadau dioddefwyr wedi eu paru) ac yn gynydd o 1.1% ers 2013/14 (95.2% o geisiadau dioddefwyr wedi eu paru).<sup>24</sup>

**TYSTION YR ERLYNIAD****CEISIADAU A BARWYD +6.9%**

O'r 572 o geisiadau ar gyfer tystion yr erlyniad, cafodd 96.2% (550) eu paru'n llwyddiannus, roedd 1.7% (10) heb eu paru a 2.1% (12) wedi eu canslo.<sup>25</sup>

**Ffigwr 19**

Mae hyn yn gynydd o 6.9% yng nghanran y paru llwyddiannus ers 2017/18 (90% o geisiadau tystion yr erlyniad wedi eu paru) ac yn gynydd o 6.7% ers 2013/14 (90.2% o geisiadau tystion yr erlyniad wedi eu paru).<sup>26</sup>

<sup>23</sup> Ffigwr 18. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

<sup>24</sup> Ffigwr 17. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013 - 2019

<sup>25</sup> Ffigwr 19. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

<sup>26</sup> Ffigwr 17. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013 - 2019

## Ceisiadau yn ôl Defnyddiwr Gwasanaeth


Mae pedwar categori o ddefnyddiwr gwasanaeth a gyflwynodd geisiadau i'r NCA yn 2018/19:

▪ Yr Heddlu
▪ Gwasanaeth Erlyn Y Goron (CPS)
▪ Cyfreithwyr*
▪ Llysoedd*

\*Oherwydd y data prin ar gyfer ceisiadau i'r Gwasanaeth Paru gan gyfreithwyr a'r llysoedd, mae'r ddau gategori hwn wedi eu heithrio o'r dadansoddiad data.

### Dadansoddiad o'r Ceisiadau

Ceisiadau gan yr heddlu oedd y mwyafrif llethol (81.1%, 5089) o'r holl geisiadau am RI yn 2018/19, gyda cheisiadau gan y CPS yn cyfrif am 18.8% (1182 o geisiadau), a cheisiadau gan gyfreithwyr a'r llysoedd yn cyfrif am ddim ond 0.06% (4 cais) am y naill a 0.01% (1 cais) am y llall.<sup>27</sup>



Ffigwr 20

### Newid Ar Draws yr Holl Geisiadau


Ers 2017/18 mae lleihad wedi bod yn nifer y ceisiadau gan yr heddlu a chan y CPS. Yn 2018/19 roedd ceisiadau gan yr heddlu i lawr o 5.2% (281 yn llai) ac i lawr o 11.4% (152 yn llai) gan y CPS.<sup>28</sup>

NEWID AR DRAWS YR HOLL GEISIADAU (DEFNYDDIWR GWASANAETH)			
Defnyddiwr Gwasanaeth	2017/18	2018/19	Newid (%)
Yr Heddlu	5370	5089	-5.2
Y CPS	1334	1182	-11.4
Cyfreithwyr	Nil	4	N/A
Llysoedd	Nil	1	N/A

Ffigwr 21

<sup>27</sup> Ffigwr 20. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

<sup>28</sup> Ffigyrau 21 a 22 Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2017 – 2019




Ffigwr 22

## Cyfraddau Paru Llwyddiannus

Ers 2017/18 mae'r cyfraddau paru llwyddiannus ar gyfer yr heddlu a'r CPS wedi cynyddu. Roedd ceisiadau a barwyd yn llwyddiannus i fyny o 3.7% ar gyfer yr heddlu ac o 2.1% ar gyfer y CPS.<sup>29</sup>

NEWID MEWN CYFRADDAU PARU LLWYDDIANNUS (DEFNYDDIWR GWASANAETH)			
Defnyddiwr Gwasanaeth	2017/18 (%)	2018/19 (%)	Newid mewn Ceisiadau a Barwyd (%)
Yr Heddlu	93.5	97	+3.7
Y CPS	91.2	93.1	+2.1

Ffigwr 23




Ffigwr 24

<sup>29</sup> Ffigyrau 23 a 24. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013 - 2019

## YR HEDDLU

### CEISIADAU A BARWYD +3.7%

Yn 2018/19, cafodd 97% (4933) o'r 5089 o geisiadau gan yr heddlu eu paru, gyda 1.5% (78) heb eu paru a 1.5% (77) wedi eu canslo.<sup>30</sup>




Ffigwr 25

Mae hyn yn gynydd o 3.7% yng nghyfradd y paru llwyddiannus ers 2017/18 (93.5% o geisiadau heddlu wedi eu paru) ac yn gynydd o 1.1% ers 2013/14 (95.9% o geisiadau heddlu wedi eu paru).<sup>31</sup>

## GWASANAETH ERLYN Y GORON

### CEISIADAU A BARWYD +2.1%

Yn 2018/19, cafodd 93.1% (1101) o geisiadau gan y CPS eu paru, gyda 4.7% (55) heb eu paru a 2.2% (26) wedi eu canslo.<sup>32</sup>



Ffigwr 26

Mae hyn yn gynydd o 2.1% yng nghyfradd y paru llwyddiannus ers 2017/18 (91.2% o geisiadau'r CPS wedi eu paru) ac yn gynydd o 0.9% ers 2013/14 (92.3% o geisiadau'r CPS wedi eu paru).<sup>33</sup>

<sup>30</sup> Ffigwr 25. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

<sup>31</sup> Ffigwr 24. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2013 - 2019

<sup>32</sup> Ffigwr 26. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

<sup>33</sup> Ffigwr 24. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

## Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth (fel arfer yr heddlu neu'r CPS), ar ôl derbyn gwasanaeth gan RI, yn cael ei werthuso yn erbyn pedwar maen prawf:

- Cydymffurfio â Gweithdrefnau Troseddol
- Ymddygiad Personol / Proffesiynoldeb yr RI
- Ansawdd yr Wybodaeth gan yr RI
- Pa mor ddefnyddiol oedd yr RI yn yr achos

Mae'r adborth o dan bob maen prawf hefyd yn cael ei ddatgyfuno rhwng gwasanaeth RI i ddiodefwyr a gwasanaeth RI i dystion yr erlyniad. Pan fydd adborth ar gyfer achos penodol yn llai na 'boddhaol', mae'r QAB yn cymryd camau i ymchwilio i'r mater.

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn asesu pob maen prawf ar sail y raddfa 1-5 isod:


Adborth	Sgôr Cyfatebol
Rhagorol	5
Mwy na boddhaol	4
Boddhaol	3
Llai na boddhaol	2
Gwael	1

Ffigwr 27

## Trosolwg ar yr Adborth

Isod, rhoddyd sgôr cyfartalog i'r adborth ar draws y pedwar maen prawf a'r ddau fath o dyst i ddangos barn defnyddwyr gwasanaeth am berfformiad Cyfryngwyr Cofrestredig yn 2018/19.

Ar sail 2540 o achosion (lle derbyniwyd adborth) derbyniodd 99.8% adborth 'boddhaol', 'mwy na boddhaol' neu 'rhagorol'. Ar gyfer y 0.2% arall, roedd 0.1% o'r adborth yn 'llai na boddhaol' a 0.1% yn 'gwael'.<sup>34</sup>



Ffigwr 28

<sup>34</sup> Ffigwr 28. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19

## Adborth ar Draws yr Holl Feini Prawf

Isod cyflwynir yr holl ganlyniadau'n cwmpasu pob math o dyst a'r holl feini prawf adborth.<sup>35</sup>

ACHOSION AR GYFER DIODDEFWYR						
Maen Prawf Adborth	'Rhagorol' (%)	Mwy na Boddhaol (%)	Boddhaol (%)	Llai na Boddhaol (%)	Gwael (%)	Ymatebion
Cydymffurfio â Gweithdrefnau Troseddol	87.6 (1199)	11.4 (156)	1 (13)	Dim	Dim	1368
Ymddygiad Personol a Phroffesiynoldeb	92.2 (1274)	7.2 (100)	0.3 (4)	0.1 (2)	0.1 (2)	1382
Ansawdd yr Wybodaeth gan yr RI	87.2 (1201)	11.2 (154)	1.4 (19)	Dim	0.2 (3)	1377
Pa mor ddefnyddiol oedd yr RI yn yr achos	85.7 (1159)	11.6 (157)	2.4 (32)	0.3 (4)	Dim	1352
<b>CYFANSWM</b>						<b>5479</b>


Ffigwr 29

ACHOSION AR GYFER TYSTION YR ERLYNIAD						
Maen Prawf Adborth	'Rhagorol' (%)	Mwy na Boddhaol (%)	Boddhaol (%)	Llai na Boddhaol (%)	Gwael (%)	Ymatebion
Cydymffurfio â Gweithdrefnau Troseddol	85.8 (103)	13.3 (16)	0.8 (1)	Dim	Dim	120
Ymddygiad Personol a Phroffesiynoldeb	94.2 (113)	5 (6)	0.8 (1)	Dim	Dim	120
Ansawdd yr Wybodaeth gan yr RI	88.2 (106)	9.2 (11)	2.5 (3)	Dim	Dim	120
Pa mor ddefnyddiol oedd yr RI yn yr achos	85.0 (102)	11.7 (14)	3.3 (4)	Dim	Dim	120
<b>CYFANSWM</b>						<b>480</b>


Ffigwr 30

<sup>35</sup> Ffigyrau 29-40. Data Gwasanaeth Paru'r NCA 2018/19





Ffigwr 31




Ffigwr 32

## Cydymffurfio â Gweithdrefnau Troseddol

DIODDEFWYR	%	#
Rhagorol	87.6	1199
Mwy na boddhaol	11.4	156
Boddhaol	1	13
Llai na boddhaol	-Dim	-Dim
Gwael	-Dim	-Dim


Ffigwr 33A



Ffigwr 33B

TYSTION YR ERLYNIAD	%	#
Rhagorol	88.5	103
Mwy na boddhaol	13.3	16
Boddhaol	0.8	1
Llai na boddhaol	-Dim	-Dim
Gwael	-Dim	-Dim

Ffigwr 34A




Ffigwr 34B

## Ymddygiad Personol / Proffesiynoldeb yr RI

DIODDEFWYR	%	#
Rhagorol	92.2	1274
Mwy na boddhaol	7.2	100
Boddhaol	0.3	4
Llai na boddhaol	0.1	2
Gwael	0.1	2


Ffigwr 35A



Ffigwr 35B

TYSTION YR ERLYNIAD	%	#
Rhagorol	94.2	113
Mwy na boddhaol	6	6
Boddhaol	1	1
Llai na boddhaol	-Dim	-Dim
Gwael	-Dim	-Dim

Ffigwr 36A




Ffigwr 36B

## Ansawdd yr Wybodaeth gan yr RI

DIODDEFWYR	%	#
Rhagorol	87.2	1201
Mwy na boddhaol	11.2	154
Boddhaol	1.4	19
Llai na boddhaol	-Dim	-Dim
Gwael	0.2	3


Ffigwr 37A



Ffigwr 37B

TYSTION YR ERLYNIAD	%	#
Rhagorol	88.2	105
Mwy na boddhaol	9.2	11
Boddhaol	2.5	3
Llai na boddhaol	-Dim	-Dim
Gwael	-Dim	-Dim

Ffigwr 38A




Ffigwr 38B

## Pa mor ddefnyddiol oedd yr RI yn yr achos

DIODDEFWYR	%	#
Rhagorol	85.7	1159
Mwy na boddhaol	11.6	157
Boddhaol	2.4	32
Llai na boddhaol	0.3	4
Gwael	-Dim	-Dim


Ffigwr 39A



Ffigwr 39B

TYSTION YR ERLYNIAD	%	#
Rhagorol	85	102
Mwy na boddhaol	11.7	14
Boddhaol	3.3	4
Llai na boddhaol	-Dim	-Dim
Gwael	-Dim	-Dim

Ffigwr 40A



Ffigwr 40B

# Astudiaeth Achos 2: Defnydd Rhyngwladol o Gyfryngwr Cofrestredig

## Jennifer Beaumont



### BYWGRAFFIAD

Mae Jennifer yn therapydd galwedigaethol gyda dros 40 mlynedd o brofiad yn gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion ag ystod eang o gyflyrau, gan gynnwys salwch meddwl ac anabledau corfforol a dysgu.

Ar ôl hyfforddi a chofrestru fel cyfryngwr yn 2007, mae Jennifer wedi hwyluso cyfathrebu i dros 450 o bobl fregus ym mhob cam o'r broses gyfreithiol. Yn ddiweddar, llwyddodd Jennifer i sicrhau achrediad gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan dderbyn rôl fel Cydlynnydd Cyfryngwr Cofrestredig Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru a Gogledd Lloegr.

Yn ystod gaeaf 2017, treuliais wythnos yn gweithio fel RI yn Kenya. Yn ystod gwanwyn 2018, eisteddais wrth ymyl achwynydd ifanc i hwyluso cyfathrebu, ochr yn ochr â chyfieithydd Swahili, gyda'r achwynydd yn rhoi tystiolaeth drwy gyswllt teledu o Kenya i Lys y Goron Leeds.

Yn ystod hydref 2017, derbyniais gais drwy'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA) am RI i gyflawni asesiad o achwynydd bregus a fyddai'n rhoi tystiolaeth mewn treial yn ymwneud a threiso ac ymosod yn rhywiol ar berson dan 16 oed, gan berson o Brydain a oedd wedi gwneud ffrindiau â phentrefwyr a'u teuluoedd pan oedd ar wyliau yn Kenya.

Cyn derbyn y cais, siaradais ag ymchwilwyr ecsbloetio ac amddiffyn plant ar-lein, a swyddog amddiffyn plant yn gweithio gyda'r NCA, i sefydlu beth y byddai angen ei wneud tra byddwn yn Kenya.

## Cyn y treial

Ymchwiliis i ddeunyddiau asesu a oedd yn ddiwylliannol briodol gan ddylunio bwrdd stori i helpu'r achwynydd i ddeall y ffeithiau sylfaenol am roi tystiolaeth.

Tuag at ddiwedd 2017, ymunais â thîm bychan a hedfan allan i Mombasa. O fewn 24 awr i ni gyrraedd, roedd heddlu Kenya wedi ein cludo i'r pentref. Roedd hyn yn gyfle i mi gyfarfod â'r achwynydd a'i mam.

Nid oedd gan y pentref ddŵr rhedeg ac nid oedd gan y teulu drydan na nwy. Roedd yr achwynydd yn byw mewn cwt un ystafell gyda'i mam a'i chwe brawd a chwaer iau. Cefais wybod bod y teulu'n coginio ac ymolchi yn yr awyr agored a bod y plant yn cario dŵr mewn cynwysyddion ar eu pennau o dap wrth y fynedfa i'r pentref.

Mi fues i yn Kenya am bedwar diwrnod yn gweithio gyda swyddogion o Uned Amddiffyn Heddlu Kenya, gweithwyr gofal teulu a'r swyddogion NCA o Brydain. Derbyniais letygarwch gan staff mewn Canolfan Achub leol. Roedd fy asesiad cyfathrebu'n canolbwyntio ar y sgiliau iaith y byddai eu hangen i roi tystiolaeth (gan gynnwys sut yr oedd yr achwynydd yn cyfleu gwybodaeth, ei sgiliau o ddisgrifio ac egluro, ei dealltwriaeth

o amser ac o iaith gymhleth, a sut yr oedd yn ymateb i wahanol fathau o gwestiynau). Gallai siarad ychydig o Saesneg ond gallai gyfathrebu'n fwy cywir yn ei hiaith ei hun. Roedd ganddi dyfiant ar ei thafod fel ei bod yn anodd deall rhai pethau a ddywedai. Nid oedd ganddi hyder yn ei gallu i gyfathrebu ac roedd yn dod drosodd fel rhywun dihyder ac anaeddfed. Ni wyddai ei mam pa flwyddyn y cafodd ei merch ei geni, er ei bod yn meddwl ei bod tua 15 oed pan ddechreuodd fynd i'r ysgol y flwyddyn cynt. Roedd ei chofnodion deintyddol yn awgrymu ei bod yn llawer iau.

Cyn gadael Kenya, defnyddiais ystod o adnoddau gweledol yn cynnwys darluniau a symbolau emosiynol i helpu'r achwynydd i fynegi ei hun drwy ddatganiad effaith dioddefwr wedi'i recordio'n weledol. Roedd profi'r cyswllt teledu rhwng Kenya a Llys Leeds yn gyfle byrffyr i ni gwrdd â staff y llys yn Leeds. Roedd fy adroddiad yn argymhell Mesurau Arbennig (YJCEA 1999) fel y gallai'r achwynydd roi ei thystiolaeth orau i'r llys yn y treial.

Caniatawyd y Mesurau Arbennig a chynhaliwyd Gwrandawriad Rheolau Sylfaenol byr yn Llys y Goron Leeds cyn i mi ddychwelyd i Kenya gydag ymchwilyr yr NCA. Ni fyddai wigiau na chlogynnau'n cael eu gwisgo a byddai'r barnwr a'r adfocadau'n cwrdd â'r achwynydd dros y cyswllt teledu ar ddiwrnod cyntaf y treial i dawelu unrhyw ofnau. Mi es i dros gwestiynau'r adfocadau i sicrhau y byddent yn rhai byr, syml gyda geiriau'r cwestiwn ar ddechrau'r frawddeg i leihau unrhyw risg o gamddealltwriaeth.

Darparwyd y cyswllt teledu gan sefydliad addysgol yn y ddinas, dwy awr mewn car i ffwrdd o bentref yr achwynydd.

## Y treial

**Diwrnod 1:** Roedd Mombasa'n gweld y glaw trymaf ers 20 mlynedd, roedd llifogydd ar hyd y ffyrdd a'r ynys i gyd wedi colli trydan. Defnyddiwyd generadur argyfwng i sefydlu'r cyswllt byw rhagarweiniol rhwng Kenya a'r llys. Roedd siarad â phobl dros y sgrîn deledu wedi achosi'r achwynydd ddihyder i ymneilltuo a mynd yn ôl i roi atebion un gair na ellid eu clywed dros y cyswllt. Treuliais y prynhawn gyda'r achwynydd a'r cyfieithydd yn defnyddio ymarferion 'taflu llais' a chwarae rôl i sicrhau y gallai'r rheithgor glywed eu lleisiau'r diwrnod canlynol.

**Diwrnod 2:** Sefydlwyd y cyswllt teledu a rhoddodd yr achwynydd ifanc dystiolaeth drwy'r cyfieithydd gyda'r RI yn hysbysu'r llys os oedd unrhyw drafferthion yn codi gan fonitro llif y cyfathrebu a rhoi adborth prydlon pan oedd yr achwynydd yn defnyddio ystumiau i ateb cwestiynau (ysgwyd y pen i lawr neu ar draws wrth ateb 'ie' a 'na', ac yn y blaen). Defnyddiodd yr achwynydd emosiynau gweledol a mapiau corff, a gymeradwywyd yn flaenorol gan y llys, i roi dystiolaeth fel y gallai ddangos a dweud pan oedd yn teimlo gormod o embaras i siarad.

Cafwyd y diffynydd yn euog a'i ddedfrydu i 18.5 mlynedd o garchar yn Llys y Goron Leeds.


**Jennifer Beaumont – Gorffennaf 2019**

# Rhan Tri: Datblygiadau yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion 2018/19

## Crynodeb

Drwy gydol 2018/19 mae'r MoJ wedi canolbwyntio ar gryfhau'r WIS drwy gyfres o fesurau i sicrhau bod mwy o Gyfryngwyr Cofrestredig ar gael ac y gellir comisiynu eu gwasanaethau'n brydlon.

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys strategaeth recriwtio ranbarthol barhaus i gynyddu nifer y Cyfryngwyr Cofrestredig o fewn y WIS; rhaglen hyfforddiant ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig; mentora; grwpiau dan arweiniad cyd-gyfryngwyr ar gyfer cyfryngwyr NQRI; sefydlu swyddi RI uwch; ac ailgyflwyno Cynhadledd Flynyddol y WIS.



Fel rhan o amcan craidd yr MoJ o sicrhau bod gan bob tyst bregus fynediad cyfartal at gyfiawnder, ffocws y mesurau ychwanegol hyn yw sicrhau bod y WIS yn cynorthwyo Cyfryngwyr Cofrestredig, dioddefwyr a thystion fel ei gilydd.

## Strategaeth ar gyfer Recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig

Yn Rhagfyr 2017 lansiodd yr MoJ raglen recriwtio ranbarthol barhaus. Mae'r rhaglen wedi'i rhedeg yn barhaus gyda ffocws yr ymgyrchoedd ar un rhanbarth ar y tro mewn ardaloedd lle mae prinder.

Mae'r dull wedi'i deilwrio hwn o ateb y galw mewn rhanbarthau wedi diffinio dull yr MoJ o recriwtio drwy gydol 2018/19. Bu'n ganolog i ddatrys unrhyw fylchau mewn capasiti ac i sicrhau bod y WIS yn cwrdd ag anghenion tystion bregus sydd angen RI arnynt.

Mae recriwtio'n barhaus wedi llwyddo i ddatrys yr oedi blaenorol gyda sicrhau gwasanaethau RI gan leihau'r amser aros cyfartalog o rhwng 4-5 wythnos i bythefnos neu lai.<sup>36</sup> Mae'n golygu hefyd y gall recriwtiaid newydd ddechrau yn y rôl yn yr un ardal â gweddill eu cohort a manteisio ar grwpiau rhanbarthol wedi'u hwyluso gan gyd-gyfryngwyr i gyfryngwyr NQRI.

<sup>36</sup> Yn aml iawn gellir cael gfael ar wasanaethau RI yn llawer cynt, hyd yn oed ar y diwrnod.



Gwnaed gwaith manwl gan ddadansoddwyr yr MoJ i sefydlu'r galw am Gyfryngwyr Cofrestredig ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r gwaith hwn wedi goleuo'r penderfyniadau recriwtio.

Erbyn Ebrill 2019 roedd yr MoJ wedi cwblhau pedwar cylch recriwtio mewn 12 mis. Arweiniodd yr ymgyrchoedd hyn at ychwanegu 48 o Gyfryngwyr Cofrestredig gweithredol at gronfa ddata'r WIS rhwng Ebrill 2018 ac Ebrill 2019.

RECRIWTIO RHANBARTHOL 2018/19	
Rhanbarth	Recriwtiaid RI Newydd (yn weithredol yn y WIS)
Dwyrain Canolbarth Lloegr	12
De Ddwyrain Lloegr (cohort mis Hydref)	13
De Ddwyrain Lloegr (cohort mis Rhagfyr)	10
Cymru	13
<b>CYFANSWM</b>	<b>48</b>

Ffigwr 46

## Hyfforddiant ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig

Cafodd Cyfryngwyr Cofrestredig profiadol eu recriwtio gan yr MoJ i greu cwrs hyfforddiant wedi'i deilwrio gan ddarparu rhaglen drylwyr dros saith diwrnod sy'n creu llwyfan cadarn ar gyfer dechrau ymarfer. Lanswyd yr hyfforddiant RI dros haf 2018 cyn ei ddarparu mewn rhanbarthau eraill ar draws Cymru a Lloegr.

Cafodd y rhaglen hyfforddi ei datblygu ar y cyd â'r MoJ ac mewn partneriaeth â chydweithwyr o bob rhan o'r system gyfiawnder troseddol. Mae'r heddlu, y CPS, yr NCA a'r farnwriaeth yn rhan o ddarparu'r modiwlau hyfforddiant sydd hefyd yn cynnwys ymweld â llys a gorsaf heddlu i helpu i roi dealltwriaeth ymarferol o rôl RI. Rhaid i ymgeiswyr lwyddo i gyflawni cyfres o bum asesiad cyn bod yn gymwys i ymuno â chofrestr y WIS (ar ôl derbyn gwiriad DBS cymeradwy a phrynu yswiriant indemniti).

## Cymorth i Gyfryngwyr NQRI

Drwy'r dull recriwtio rhanbarthol, bu'n bosib teilwrio'r cymorth i recriwtiaid newydd. Gall cyfryngwyr NQRI nawr fanteisio ar grwpiau wedi'u hwyluso gan gyfryngwyr profiadol am chwe mis cyntaf eu rôl.

Mae'r grwpiau hyn yn rhoi cyfle i gadarnhau'r hyfforddiant a rhoi sylw i unrhyw gwestiynau neu ansicrwydd sy'n parhau, gan hefyd roi fforwm i recriwtiaid newydd gael trafod eu profiadau wrth dderbyn eu hachosion cyntaf. Felly bydd recriwtiaid newydd wedi hyfforddi gyda'i gilydd ac yn ymarfer mewn meysydd tebyg. Maen nhw'n cael eu hannog i ryngweithio â'u cyd-gyfryngwyr a bydd y cysylltiadau hyn yn creu rhwydwaith gwerthfawr iddynt drwy gydol eu hymarfer yn y dyfodol.

Mae'r MoJ wedi dyblu ei chyllid i ddarparu mentora un-i-un ar gyfer cyfryngwyr NQRI.

## Cyfryngwyr Cofrestredig Achrededig (aRI)

Mae cyflwyno rôl yr RI achrededig i Gyfryngwyr Cofrestredig profiadol gyda hanes o adborth rhagorol wedi rhoi cyfle i'r Cyfryngwyr ardderchog hyn gyfrannu mwy at weithgareddau er lles corfforaethol y WIS. Diben arall rôl yr aRI yw sicrhau bod gwaith corfforaethol – fel bod yn rhan o recriwtio, mentora a chyfrannu at ddatblygu polisïau newydd – yn cael ei ddyrannu'n deg a thryloyw i unigolion yn y WIS. Y swydd uchaf sydd ar gael i aRI yw Cydlynnydd Rhanbarthol – rôl a gyflwynwyd ar ddechrau 2019. Bydd y rolau hyn yn darparu arweinyddiaeth ac yn dylanwadu ar ymarfer da ar lefel ranbarthol, gan hefyd hwyluso cyfathrebu rhwng yr MoJ a rhanbarthau ar draws Cymru a Lloegr.

Mae achrediad ar gael i Gyfryngwyr Cofrestredig a fu'n rhan o 100 o achosion neu fwy dros dair blynedd o leiaf. Mae'n fodd i'r MoJ, yr NCA a'r QAB gydnabod statws uwch RI ac yn fodd i'r RI gyflawni dyletswyddau ychwanegol gan yr MoJ.

## Cydlynwyr RI Rhanbarthol

Fel y rôl uchaf ar gyfer cyfryngwyr aRI, penodir cydlynwyr rhanbarthol gan yr MoJ i gryfhau a dylanwadu ar ymarfer da yn y rhanbarth. Agwedd bwysig ar y rôl yw hwyluso cyfathrebu rhwng y rhanbarth a'r MoJ. Mae cydlynwyr rhanbarthol yn bwynt cyswllt ar gyfer Cyfryngwyr Cofrestredig, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid. Maen nhw'n gweithio'n agos â grwpiau rhanbarthol i roi cymorth lle bo'i angen ac yn cyfathrebu datblygiadau rhanbarthol i'r MoJ. Mae'r cydlynwyr rhanbarthol hefyd yn gyfrifol am fonitro anghenion CPD a sicrhau bod y rhain yn cael eu cwrdd.

Ar adeg yr ysgrif hon, mae un cydlynnydd rhanbarthol newydd ddechrau yn ei swydd ar gyfer Cymru a Gogledd Lloegr. Bwriad yr MoJ yw recriwtio tri chydlynnydd rhanbarthol arall ar gyfer y rhanbarthau eraill, sydd rhyngddynt yn cwmpasu pob un o'r 43 ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr.

RHANBARTHOU CYDLYNWYR RI			
Cymru a Gogledd Lloegr	Canolbarth Lloegr	De Orllewin Lloegr	De Ddwyrain Lloegr
ARDALOEDD HEDDLU			
Sir Gaer	Derbyshire	Avon a Gwlad yr Haf	Bedfordshire
Cleveland	Dyfed-Powys	Dyfnaint a Chernyw	Sir Gaergrawnt
Cumbria	Sir Gaerlŷr	Dorset	Dinas Llundain
Durham	Lincolnshire	Sir Gaerloyw	Essex
Manceinion Fwyaf	Northamptonshire	Gwent	Hertfordshire
Humberside	Nottinghamshire	Hampshire	Caint
Sir Gaerhirfryn	Staffordshire	De Cymru	Metropolitan
Glannau Merswy	Warwickshire	Wiltshire	Norfolk
Northumberland	West Mercia		Suffolk
Gogledd Cymru	Gorllewin Canolbarth Lloegr		Surrey
Gogledd Sir Efrog			Sussex
De Sir Efrog			Dyffryn Afon Tafwys
Gorllewin Sir Efrog			

## **Cynhadledd y WIS 2019**

Mae'r MoJ wedi ailgyflwyno Cynhadledd y WIS a chynhaliwyd y digwyddiad yn Chwefror 2019.

Roedd y gynhadledd yn gyfle i ddod â chyfryngwyr RI at ei gilydd o bob rhan o'r wlad ac i fyfyrion ar y rôl hanfodol y maen nhw'n ei chwarae yn y system gyfiawnder troseddol ac ar newidiadau i'r WIS yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr adborth o'r gynhadledd yn awgrymu bod y cynadleddwyr wedi cael budd o'r gynhadledd gyda dros 70% yn rhoi adborth 'da', 'da iawn' neu 'rhagorol'.

Ar gyfer y dyfodol mae'r MoJ yn bwriadu cynnal cynhadledd WIS flynyddol.

# Astudiaeth Achos 3: Barn Cyfryngwr NQRI

## Nicola Bailey-Wood



### BYWGRAFFIAD

Mae Nicola wedi gweithio fel therapydd iaith a lleferydd i'r GIG ers 26 o flynyddoedd gan arbenigo mewn cyflyrau iaith penodol ac anawsterau ar y sbectwm ASD gan blant gyda datganiad.

Ym mis Mawrth 2019 llwyddodd Nicola i gwblhau ei hyfforddiant RI fel rhan o'r cohort yng Nghymru gan ddechrau ymarfer fel RI ym mis Mai.

## Y Broses

I mi, roedd y broses o ddod yn RI yn un hir i ddechrau. Roedd yn fordaith hir o ddarganfod pethau. Holais yn gyntaf drwy e-bost ddwy flynedd cyn i mi gael y cyfle o'r diwedd i ymgeisio'n ffurfiol.

Pan oeddwn yn gwneud fy nghais i ddechrau, rhaid cyfaddef mai ychydig iawn a wyddwn am y rôl. Roeddwn yn ffodus fy mod yn adnabod rhywun oedd wedi gwneud y rôl o'r blaen. Felly roeddwn yn gallu trafod y gwaith yn fwy manwl, gan hefyd 'gwglo' llawer o bethau i ddysgu gymaint â phosib. Roeddwn wrth fy modd, fis neu ddau ar ôl i mi ymgeisio, pan gefais fy ngwahodd i gyfweiliad yn Llys Ynadon Caerdydd.

Mi euthum i mewn i'r adeilad, oedd yn fyd tra gwahanol i fy nghynefin arferol yn y GIG, gyda dogfen ddiwygio'r Farwnes Newlove yn dynn o dan fy nghesail. Roedd yn ddwy awr eithaf cynhyrfus. Roedd yn anodd ysgrifennu adroddiadau am blant na wyddwn pwy oedden nhw ond meddyliais 'wel rhaid i mi roi cynnig arni'. Roedd fy nghyfweiliad yn agoriad llygad. Mi ddeuthum allan o'r llys i gyfarfod fy ngŵr yn llawn ffeithiau am y cyfarfod, ac yn hollol siŵr fy mod eisiau gwneud y rôl os oedd unrhyw gyfle y gallwn wneud. Sylweddolaf bellach mai dim ond crafu'r wyneb ar fyd yr RI a wnes i.

## Hyfforddiant

Roedd mynychu'r hyfforddiant yng Nghasnewydd, i mi, yn golygu aberth bersonol. Nid oedd fy nhîm therapi iaith a lleferydd yn gefnogol i mi fynychu felly penderfynais gymryd gwyliau a thalu fy hun i mi gael mynychu am bythefnos. Erbyn diwedd y diwrnod cyntaf sylweddolais mai dyma yr oeddwn eisiau ei wneud, lle gallwn ddefnyddio fy sgiliau'n fwy effeithiol nag erioed o'r blaen. Roedd fy mywyd fel therapydd iaith a lleferydd wedi bod fel gollwng carreg mewn pwll o ddŵr; pe gallwn wneud hyn, byddai fel taflu craig i mewn i lyn.

Roedd y cwrs ei hun yn dysgu popeth yr oedd angen i mi ei wybod i ddechrau ar y broses o fod yn RI. Roedd yn ddwys iawn. Roedd swmp enfawr o wybodaeth i'w gymryd i mewn, ond roedd y tiwtoriaid yno i gynnig cymorth aruthrol. Roeddwn yn dysgu am fyd hollol newydd.

Er bod y cwrs yn anodd, roedd yn canolbwyntio'r meddwl a sicrhau y gallwn ddefnyddio fy ngwybodaeth newydd yn effeithiol. Ac roedd gweithio gyda grŵp o ddarpar gyfryngwyr RI yn golygu fy mod eisoes yn creu rhwydwaith o gymorth.

Rhaid dweud nad yw'r rôl i bawb, gall cynnwys yr achosion y mae RI yn gweithio arnynt fod yn ddirdynol. Ond rwyf wedi synnu fy hun fy mod yn teimlo dan orfod i fod yn rhan o'r rhwydwaith anhygoel yma o bobl. Rwyf hefyd wedi synnu llawer o fy ffrindiau a'm teulu.

Teimlais mor falch o fod wedi pasio'r cwrs, ac er bod diwrnod y cyflwyniad y anodd, roedd yn gyfle arall i egluro pam yr oeddwn eisiau gwneud y gwaith.

## **I'r dyfodol**

Mae'r cwrs RI wedi newid fy mywyd. Ers hynny rwyf wedi cefnu ar fy mywyd fel therapydd iaith a lleferydd gan afael yn fy sgiliau a'm profiad i gamu mewn i fyd newydd y system gyfiawnder. Rwy'n parhau i fod ar ddechrau'r siwrne honno ac yn dysgu mwy gyda phob achos. Rwyf mor falch y cefais gyfle i ymarfer ysgrifennu adroddiadau – mae wedi rhoi mwy o hyder i mi i'w hysgrifennu ar gyfer achosion go iawn.

**Nicola Bailey-Wood – Mehefin 2019**

# Rhan Pedwar: Ariannu'r Cynllun Cyfryngwyr Tystion

## Y Gyllideb Weinyddol

Roedd cyllideb y WIS am 2018/19 yn £460,000, a £275,000 o hwn yn cael ei dalu i Dîm Cyfryngwyr Tystion yr NCA i ariannu Gwasanaeth Paru'r WIS ac Ysgrifenyddiaeth y QAB.

Mae'r gweddill (£185,000) yn cael ei wasgaru ar draws y WIS. Mae hyn yn cynnwys ariannu'r IRB, QAB a'r RIRT a hefyd y gwaith o recriwtio, hyfforddi a datblygu Cyfryngwyr Cofrestredig ar draws Cymru a Lloegr.

CYLLIDEB Y WIS 2018/19		
DYRANIAD CYLLID	SWM (£)	% O'R GYLLIDEB FLYNYDDOL
Gwasanaeth Paru'r WIS	275,000	59.8
Gweddill gwasanaethau'r WIS (IRB, RIRT, recriwtio, hyfforddiant a datblygu cyfryngwyr NQRI)	185,000	40.2
<b>CYFANSWM</b>	<b>460,000</b>	<b>100</b>

Ffigwr 47

## Cyfraddau Tâl

Telir Cyfryngwyr Cofrestredig ar sail cyfraddau a gytunir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'r MoJ (gan gynnwys treuliau / costau).

Rhaid i Gyfryngwyr Cofrestredig anfonebu ar sail y cyfraddau cenedlaethol, a negodir gyda'r heddlu a'r CPS, a gymeradwyir gan yr IRB. Codir ffioedd fesul yr awr, ar gyfer apwyntiadau wyneb-yn-wyneb ac am ysgrifennu adroddiadau, gyda theithio a chynhaliaeth yn cael ei ad-dalu o fewn cyfyngiadau'r polisi.

Pan fydd y Cyfryngwr Cofrestredig yn derbyn Cais am Wasanaeth, bydd yn dod yn rhan o drefniant cytundebol. Mae'r trefniant hwn rhwng y Cyfryngwr Cofrestredig, fel unigolyn hunan-gyflogedig, a'r gwasanaeth y daeth y cais ganddo – fel arfer yr heddlu neu'r CPS.

# Astudiaeth Achos 4: Byddardod yn y System Gyfiawnder Troseddol

## Chantelle de la Croix



### BYWGRAFFIAD

Mae Chantelle wedi bod yn Gyfryngwr Cofrestredig ers dros 16 o flynyddoedd gan arbenigo mewn gweithio gyda phobl fyddar sy'n defnyddio iaith arwyddion i gyfathrebu.

Ar ôl gweithio gyda'r gymuned pobl fyddar ers dros 20 mlynedd, mae llawer iawn o waith Chantelle wedi canolbwyntio ar roi cymorth i blant mewn lleoliadau addysgol dwyieithog (iaith lafar / iaith arwyddion) a rhoi cymorth i'r teulu mewn lleoliadau cymunedol.

Cysylltodd yr heddlu â mi i gynorthwyo mewn achos o dwyll lle'r oedd chwaer gŵr oedrannus yn poeni bod cymydog efallai'n ei gam-drin yn ariannol. Roedd ei chwaer yn gyfrifol am ei arian ac roedd wedi sylwi ei fod yn anghyffredin o brin o arian bob wythnos.

Roedd y gŵr dan sylw tua 70 oed. Roedd yn gallu cyfathrebu drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) ond, oherwydd bod ei ddealltwriaeth o iaith yn sylfaenol iawn, ni allai ateb cwestiynau'r heddlu'n foddhaol. Penderfynodd yr heddlu ddefnyddio cyfieithwyr BSL, ond nid oedd gan y cyfieithwyr ddigon o ddealltwriaeth gysyniadol i gyfathrebu'n effeithiol â'r gŵr dan sylw.

Cyn y cyfweiliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau (ABE), cefais gyfarfod â'r gŵr dan sylw i greu cytgorod ac i gadarnhau faint y gallai ei ddeall. Penderfynais fod arno angen cymhorthion gweledol i'w helpu i gyfathrebu felly dangosais gyfres o eitemau iddo a gofyn a oedd eisiau eu prynu. Gallai'r gŵr ddangos a oedd eisiau prynu'r eitemau neu beidio a gallai hefyd ddangos dealltwriaeth o'r prisiau. Ar sail hyn, penderfynais y gallai wneud dewisiadau gwybodus yn defnyddio ei farn.

I ddechrau, ni allai'r gŵr gofio'n iawn pryd yr oedd y cymydog wedi gwneud y ceisiadau amheus am arian, felly dangosais galendr misol iddo i'w gynorthwyo. O hwn, roeddwn yn gallu sefydlu y gallai'r gŵr gofio dyddiadau pwysig yn dda, fel y Nadolig, ei ben-blwydd a phen-blwydd ei chwaer. Bu hyn yn gymorth i ymchwilio i'r amheuron am y cymydog, oherwydd gallai yna sefydlu a oedd y cymydog wedi gwneud y ceisiadau cyn neu ar ôl y dyddiadau hyn, a pha mor aml. O'r pwynt hwn ymlaen, gallai'r gŵr gofio'n fras faint o arian yr oedd wedi'i roi, a chydnabod na dderbyniodd dim yn ôl.

Yna bu'n rhaid i ni asesu a oedd y gŵr wedi gallu cytuno'n ymwybodol i roi arian i'w gymydog pan oedd wedi gofyn. Penderfynwyd ar dacteg arall i wneud hyn drwy ddefnyddio iaith syml i gadarnhau ateb ie neu na. Gallai nodi'n glir nad oedd wedi bod eisiau rhoi arian i'w gymydog ond ei fod yn poeni y byddai'n colli ei gyfeillgarwch â'r cymydog pe bai'n gwrthod. O'r pwynt hwnnw ymlaen, gallai'r heddlu gasglu digon o dystiolaeth i arestio'r cymydog am gam-drin ariannol. Fel RI, roedd fy sgiliau cyfathrebu wedi helpu i sicrhau'r wybodaeth fel y gallai'r heddlu arestio'r cymydog.

Roedd creu cytgorod â'r gŵr yn hanfodol drwy gydol yr achos hwn. Roedd yn gymorth i mi ennill dealltwriaeth gysyniadol o'i gyfathrebu a sefydlu lefel ei ddealltwriaeth. Drwy ddefnyddio cymhorthion gweledol i gynorthwyo ei benderfyniadau, gallwn gasglu'r dystiolaeth a wnaeth wahaniaeth creiddiol i'r achos hwn.


**Chantelle de la Croix – Gorffennaf 2019**



# Rhan Pump: Edrych Ymlaen

Wrth symud ymlaen, bydd yr MoJ yn parhau i ymrwmo i wella gweithrediad y WIS i sicrhau y gellir ateb y galw am Gyfryngwyr Cofrestredig ar draws Cymru a Lloegr.

Mae hyn yn rhan o amcan hirdymor o gynyddu'r ddarpariaeth o fesurau arbennig er mwyn ateb anghenion pob tyst a dioddefwr bregus yn y system gyfiawnder troseddol.



## Dull Recriwtio Ar Sail Sgiliau

Byddwn yn parhau i sicrhau bod digon o Gyfryngwyr Cofrestredig ar gael yn y WIS i ddarparu'r gwasanaeth gyda chyn lleied o waith aros â phosib.

Byddwn yn gweithredu dull recriwtio newydd 'ar sail sgiliau' yn dilyn dadansoddi'r sgiliau presennol o fewn y WIS. Bydd y dull newydd hwn yn targedu'r sgiliau a'r arbenigedd sydd fwyaf eu hangen ar y WIS gan sicrhau y bydd tystion a dioddefwyr bregus yn gallu derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n ateb eu hanghenion unigol.

## Strategaeth QAB Newydd

Mae'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd wedi cyhoeddi ei strategaeth ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol hwn gan fwriadu ei gweithredu dros y 12 mis nesaf. Dyma'r tro cyntaf i'r QAB gyhoeddi strategaeth a'i phwrpas yw sicrhau mwy o dryloywder o ran sut y mae safonau o fewn y WIS yn cael eu monitro a'u cynnal.

## Cymorth i Gyfryngwyr Cofrestredig Newydd Gymhwyso

Gan gydnabod pwysigrwydd pontio'n ddidor o hyfforddi i weithio ar achos cyntaf, bydd yr MoJ yn parhau i ddarparu grwpiau dan arweiniad cyd-gyfryngwyr ar gyfer cyfryngwyr NQRI gan weithredu unrhyw newid ar sail adborth o'r cyfnod peilot a gweithrediad cynnar y grwpiau. Mae'r MoJ wedi ymrwmo i sicrhau bod gan recriwtiaid newydd fynediad at grŵp o gyd-gyfryngwyr.

Bydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) i Gyfryngwyr Cofrestredig yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd y cynllun mentora presennol yn cael ei gryfhau gyda chanllawiau newydd i fentoriaid a mentoreion. Bydd gan fentoreion hefyd fwy o hyblygrwydd o ran pryd i ddefnyddio eu horiau mentora wedi'u hariannu gan yr MoJ. Bwriadwn hefyd gyflwyno logiau CPD wedi eu teilwrio i gyfryngwyr NQRI fel bod recriwtiaid newydd yn gallu cofnodi'r sgiliau, gwybodaeth a'r profiad a enillir ganddynt yn eu rôl.

## **Adolygiad o Wasanaethau Cyfryngwyr Ar Draws y System Gyfiawnder**

Bydd yr MoJ yn adolygu gwasanaethau RI ar draws y system gyfiawnder. Bydd hyn yn casglu dystiolaeth a data er mwyn dod i ddeall y tirlun RI ar draws y system gyfiawnder yn well, adnabod y pethau sy'n gweithio'n dda a cheisio cywiro unrhyw broblemau, heriau a bylchau. Ar ôl asesu'r dystiolaeth, byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer gwasanaethau RI i'r dyfodol ac yn gweithredu'r atebion y cawsant eu hadnabod.



© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 o'r Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3).

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.